# ROBERTS, Syr ERNEST HANDFORTH GOODMAN (1890 - 1969), barnwr

**Enw:** Ernest Handforth Goodman Roberts
**Dyddiad geni:** 1890
**Dyddiad marw:** 1969
**Rhiant:** Elizabeth Roberts (née Lewis)
**Rhiant:** Hugh Goodman Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** barnwr
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd ym Mhen-y-ffordd, Fflint, 20 Ebrill 1890, yn unig fab i Hugh Goodman Roberts a'i wraig Elizabeth (ganwyd Lewis). Addysgwyd ef yng Ngholeg Malvern a Choleg y Drindod, Rhydychen; yr oedd yn llywydd Undeb Rhydychen yn 1914. Yn ystod Rhyfel Byd I gwasanaethodd gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a chododd i reng capten. Bu'n gwasanaethu ym Mhalestina. Enwyd ef mewn cadlythyrau a bu'n swyddog llys milwrol. Yn y cyfamser galwyd ef i'r Bar (1916). Bu'n ymgeisydd am sedd sir y Fflint dros y Ceidwadwyr yn 1923 gan ei hennill yn 1924 a pharhau'n A.S. hyd 1929. Urddwyd ef yn farchog yn 1936 ac ef oedd Prif Ustus yr Uchel Lys yn Rangoon o'r fl. honno hyd 1948. Y fl. ddilynol gwnaed ef yn Gwnsler y Frenhines a bu'n gomisiynydd y Brawdlys mewn amryw gylchdeithiau ddeunaw gwaith, 1949-55, ac yn ddirprwy gadeirydd Sesiwn Chwarter y Fflint hyd 1961. Yr oedd yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru 1916-36 ac 1947-59, ac yn ganghellor esgobaethau Bangor, 1947-59, a Chelmsford, 1950-69. Cyhoeddodd *Principles of the law of contract* (1923). Ni bu'n briod a bu farw 14 Chwefror 1969 yn ei gartref yn Llundain.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau

*Who was who?*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 311428063

Wikidata: Q5393749

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu